



# ale School Governors' Association

## Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

### and Governor Support Unit

# Newsletter

## Nodyn wrth y Cadeirydd

Mynychais Gynhadledd Addysg Genedlaethol Cymru ar eich rhan yng nghanol mis Chwefror, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Gyda'i theitl eithaf crand, roedd y gynhadledd yn cynnwys lluo o weithwyr addysg proffesiynol – Penaethiaid, Cyfarwyddwyr Addysg, Cynghorwyr Addysg, Swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol ac ychydig iawn o lywodraethwyr. Y pwnc trafod poblogaidd oedd perfformiad gwael ymddangosiadol ysgolion yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â phroffion PISA ar gyfer pobl ifanc ym Mlwyddyn 11. Gyda llaw, ystyr PISA yw Programme for International Student Assessment – nid oes llawer o bobl yn gwybod hynny. Cyhoeddodd y Gweinidog y byddai system raddio newydd yn cael ei sefydlu i ysgolion, a bu cyfres o athrawon blaenllaw, Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac addysgwyr yn cyfleu eu hawgrymiadau ynghylch sut y byddai modd gwella'r system Addysg yng Nghymru a sicrhau ei bod yn fwy addas i'r diben. Ategwyd rôl hollbwysig llywodraethwyr a'u harweinyddiaeth wrth herio rheolwyr ysgolion gan sawl un o'r siaradwyr. Mae gan lywodraethwyr rôl pwysig iawn i'w gyflawni os yw dysgwyr yng Nghymru yn mynd i fod mor barod ag y bo modd ar gyfer y dyfodol, beth bynnag a ddaw.

O ystyried y ffaith bod St Richard Gwyn newydd gael arolygiad dan y Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd, ni ddylai'r pwyslais hwn ar bwysigrwydd llywodraethwyr fod wedi fy synnu. Dyma'r trydydd arolygiad yr ydw i wedi cael profiad ohono ers i mi fod yn llywodraethwr uwchradd a hwn fu'r un mwyaf ymholgar a threiddgar o bell ffordd, yn ogystal â'r un mwyaf llethol i'r staff. Nid yw'n ddigon i gorff llywodraethu nodi ei fod wedi gweithredu fel "cyfaill beirniadol"; mae angen i chi gynnig enghreifftiau cadarn – pryd a sut a pham? Ar beth y gwnaethoch chi seilio'ch dadl? Pa effaith gafodd y penderfyniad terfynol ar y dysgu yn eich ysgol? Sut ydych yn gwybod?

Wrth gwrs, rydw i'n teimlo'n hapus am y broses gan bod St Richard Gwyn wedi dod drwyddi yn dda, fel y bydd modd i chi ei weld ar wefan Estyn ar ôl Diwrnod Ffôl Ebrill. Mawr obeithiaf y byddwch chi mor ffodus pan ddaw'r amser. Byddwn yn eich cynghori i ddechrau paratoi nawr, os nad ydych eisoes wedi dechrau gwneud hynny.

**Martin Price**

**Cadeirydd VSGA ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Catholig St Richard Gwyn, Y Barri**

## Cystadleuaeth Gwrth-fwlio 2010

Yn ystod yr wythnos Gwrth-fwlio, cyhoeddwyd enwau enillwyr Cystadleuaeth Gwrth-fwlio Bro Morgannwg a gynhelir gan y Tim Gwella Ymddygiad Cynradd.

Eleni, roedd y gystadleuaeth yn gofyn i ysgolion greu rap a fyddai'n cynnwys cerddoriaeth a geiriau. Bu'r ymdrechion yn llawn dychymyg, gan brocio'r meddwl – roedd rhai ohonynt o safon uchel iawn!

Enillydd haeddiannol y Gystadleuaeth ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 oedd Ysgol y Babanod Dinas Powys. Yr enillydd yng Nghyfnod Allweddol 2 oedd Ysgol Gynradd Catholig St Joseph ym Mhenarth. Roedd Cyngor Ysgol Ysgol High Street yn y Barri yn ail.

Bu Cynghorydd Hampton a'r Tim Gwella Ymddygiad Cynradd yn ymweld â'r holl ysgolion buddugol i'w llongyfarch. Cyflwynwyd tystysgrifau a gwobrau ariannol i'r plant, i'w gwario ar eitemau ar gyfer eu hysgolion.

Llongyfarchiadau a diolchi i'r holl staff a'r disgyblion a fu'n gweithio mor galed i godi proffil Gwrth-fwlio yn y Fro trwy ymgeisio yn y gystadleuaeth.

**Hilary Drew**

**Tim Gwella Ymddygiad Cynradd**

## Issue 22

### Tymor Gwanwyn 2011

#### Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Ffurfiwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 llywodraethwr etholedig ynghyd â 2 gynrychiolydd etholedig sy'n llywodraethwyr sy'n rhieni

#### Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid i sicrhau adnoddau digonol i ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion a rheoli a darparu adnoddau i ysgolion, i awdurdodau a sefydliadau perthnasol



# Diweddariadau Dal i Fyny Llythrennedd a Rhifedd - Tymor y Gwanwyn 2011

Mae Dal i Fyny Llythrennedd a Dal i Fyny Rhifedd yn ymyriadau un i un sy'n cynorthwyo dysgwyr sy'n cael anhawster gyda llythrennedd a rhifedd.

Cyflwynwyd cynllun Dal i Fyny Llythrennedd yn y Fro ym mis Mehefin 2002 mewn 12 ysgol beilot. Hyd yn hyn, mae pob ysgol ar draws yr awdurdod wedi cael hyfforddiant. Mae 563 o athrawon a chynorthwyr dysgu wedi manteisio ar hyfforddiant achrededig, sy'n cyfateb â bron i un o bob tri o'r holl oedolion a hyfforddwyd ar draws Cymru o fewn yr 17 awdurdod sy'n defnyddio Dal i Fyny Llythrennedd.

Bu ysgolion y Fro yn cymryd rhan yn y rhaglen Ymchwil a Datblygu ar gyfer Dal i Fyny Rhifedd yn 2007. Ers y cyflwynwyd y rhaglen ym mis Gorffennaf 2008, mae 132 o oedolion wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno'r rhaglen mewn 82% o'r ysgolion yn y Fro.

Bellach, defnyddir Dal i Fyny Llythrennedd ar draws 12 awdurdod lleol yng Nghymru.

Caiff y ddau gynllun ymyrraeth eu hachredu gan Rwydwaith y Coleg Agored ac ar hyn o bryd, mae dros 400 o oedolion yn y Fro wedi cymryd rhan yn y broses achredu.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae bron i 1000 o ddisgyblion wedi manteisio ar yr ymyriadau ac ar gyfartaledd, llwyddwyd i sicrhau gwerth 12 mis o gynnydd dros 7 mis o gymorth ac o ran Dal i Fyny Llythrennedd, darparwyd tystiolaeth gan un ysgol a samplwyd o werth 22 mis o gynnydd dros 9 mis o gymorth.

Gan dargedu disgyblion mewn ysgolion cynradd i ddechrau, mae'r datblygiadau a welwyd yn ddiweddar ar draws y ddwy fenter wedi arwain at fwy o ddefnydd mewn ysgolion uwchradd, ac adroddwyd llwyddiannau tebyg.

Mae ysgolion y Fro wedi gweithio mewn ffordd systematig er mwyn ymgorffori'r ymyriadau o fewn eu mapiau darpariaeth. Yn ddiweddar, mae tîm canolog o gynorthwyr addysgu teithiol wedi bod yn cynorthwyo disgyblion ychwanegol yn ysgolion y Fro.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn y Fro yn peilota Gwobr Ragoriaeth a gydnabyddir ar lefel genedlaethol ar gyfer Dal i Fyny Llythrennedd/Rhifedd, lle y bydd ysgolion yn cael eu cydnabod fel canolfannau rhagoriaeth ar gyfer yr ymyriadau.

Mewn datblygiad arall, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y consortiwm sgiliau sylfaenol ddechrau mis Chwefror. Yn ystod y cyfarfod hwn, cyfarfu cydlynwyr sgiliau sylfaenol ar gyfer y consortiwm a'r cynghorydd cyswllt ar gyfer rhifedd ym Mro Morgannwg er mwyn datblygu arbenigedd, rhannu arfer da a llunio ffyrdd ymlaen er mwyn sicrhau cysondeb wrth gynllunio a darparu mentrau llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys Rhaglenni Dal i Fyny.

Hyd yn hyn, mae'r Cydlynwyr Sgiliau Sylfaenol ar gyfer Bro Morgannwg wedi darparu hyfforddiant Llythrennedd Dal i Fyny ar draws yr awdurdod o fewn y consortiwm, a bydd y cynghorydd cyswllt ar gyfer rhifedd yn darparu Dal i Fyny Rhifedd yn y dyfodol agos.

Estynnwyd gwahoddiad i awdurdodau eraill i fynychu cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr Dal i Fyny Rhifedd a Llythrennedd a digwyddiadau arddangos yn ystod tymor yr haf, a derbyniwyd y gwahoddiadau hyn. Yn ogystal, bydd cydweithio ar draws awdurdodau yn arwain at ddatblygu cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i staff yn y pum awdurdod. Mae posibiliadau eraill o ran cydweithio ym maes hyfforddiant consortiwm mewn mentrau sgiliau sylfaenol eraill yn cael eu hystyried hefyd.

**Kathryn John**

**Cynghorydd Cyswllt dros Rifedd**

**Ffôn: 01446 709862**

**e-bost: kmjohn@valeofglamorgan.gov.uk**

## Gohebiaeth i Lywodraethwyr

Yn ddiweddar, cynhaliodd yr Uned Cefnogi Llywodraethwyr ymgynghoriad gyda llywodraethwyr ynghylch y dull y maent yn ei ffafrio er mwyn cael gohebiaeth gan yr Uned Cefnogi Llywodraethwyr.

Gall GSU arbed swm sylweddol o arian, sy'n arbennig o bwysig yn yr hinsawdd economaidd presennol, os bydd modd i ni anfon negeseuon e-bost at lywodraethwyr, yn hytrach na defnyddio'r post.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, dim ond ychydig dros 100 o lywodraethwyr sydd ar ôl, allan o bron i 1000, nad ydynt wedi nodi'r dull y maent yn ei ffafrio.

Mae'r dewisiadau fel a ganlyn:

- |                  |                   |                     |
|------------------|-------------------|---------------------|
| The options are: | 1. Saesneg – Post | 2. Saesneg – E-bost |
|                  | 3. Cymraeg – Post | 4. Cymraeg E-bost   |

Os ydych yn llywodraethwr ac os nad ydych wedi cadarnhau eto pa ddull fyddai'n well gennych, a fydddech gystal â hysbysu GSU trwy anfon e-bost at [governors@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:governors@valeofglamorgan.gov.uk) neu ffonio Janine ar 01446 709107.

**Uned Cefnogi Llywodraethwyr**



# Noson Wobrwyo ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Cynhaliwyd y drydedd Noson Wobrwyo ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar 25 Tachwedd 2010 yn y Neuadd Goffa, Y Barri.

Derbyniodd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, wahoddiad gan Gynghorydd Dorothy Turner i fynychu'r digwyddiad, a chafwyd anerchiad ganddi a bu'n cyflwyno gwobrau i'r plant.

Fel erioed, nod y noson oedd dathlu llwyddiannau plant Bro Morgannwg sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n byw yn y Fro ond sy'n hanu o siroedd eraill. Roedd pob un ohonynt a oedd yn bresennol wedi sicrhau cyflawniad mewn rhyw ffordd, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi gorfod ymdopi gydag anawsterau a straen personol yn ystod y flwyddyn.

Roedd y gwobrau a ddyfarnwyd yn amrywio o lwyddiant ar lefel TGAU, Safon UG a lefel A, gwelliant o ran ymdrech, cyflawniad neu ymddygiad, ymdopi gydag anabledd, cyflawniad ym maes chwaraeon er gwaethaf anabledd corfforol neu ymdopi er gwaetha'r amgylchiadau. Enwebwyd 37 o blant rhwng 5 a 18 oed am wobrau gan ofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, athrawon a nyrsys LAC, ac roedd 27 yn bresennol i'w cael. I'r rhai sy'n byw yn rhy bell i ffwrdd,

fe'u cyflwynwyd iddynt yn ystod gwasanaethau ysgol neu'n breifat, yn unol â'u dymuniad. Rhoddwyd tystysgrif, taleb a medal i bob un ohonynt.

Yn ystod y noson, cafwyd eitemau cerddorol gan fyfyrwyr o Ysgol Gyfun Y Barri, Ysgol Cardinal Newman ac Ysgol St Richard Gwyn. Roedd hi'n faint cael gwrandao ar leisiau mor dalentog a phwerus! Bu'r dawnswyr stryd o ysgol St Richard Gwyn yn diddanu'r gynulleidfa gyda'u perfformiad anhygoel ac roeddent yn bwriadu cymryd rhan yn y clyweliadau ar gyfer rhaglen deledu Britain's Got Talent! Bu eu cyfraniad nhw yn fodd o wella awyrgylch a llwyddiant y noson yn sylweddol, gan ddangos y talent sydd gennym yn ein hysgolion.

Hoffem ddiolch i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc am ariannu'r digwyddiad. Yn ogystal, dolch i'r holl Rieni Corfforaethol a wnaeth fynychu: Aelodau Etholedig, cydweithwyr o'r gyfarwyddiaeth Dysgu a Datblygu a'r Gwasanaethau Plant a wnaeth dreulio'r noson gyda ni.

**Jenny Smith**

**Cydllynydd Addysg i Blant sy'n Derbyn Gofal**

## Gwefan yr Uned Cefnogi Llywodraethwyr

Yn ddiweddar, mae'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr wedi diweddarau ei gwefan sef:

[www.valeofglamorgan.gov.uk/working/education\\_and\\_skills/schools/school\\_improvement/governor\\_support\\_unit.aspx](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/working/education_and_skills/schools/school_improvement/governor_support_unit.aspx)

Bydd llawer mwy o gynnwys a thudalennau pellach yn cael eu hychwanegu cyn bo hir. A fydddech gystal ag adolygu'r tudalennau a'n hysbysu os hoffech weld unrhyw beth pellach yn cael ei gynnwys neu os oes modd gwella unrhyw dudalennau.

**Uned Cefnogi Llywodraethwyr**

## Aelodaeth Pwyllgor Rheoli Membership 2010-12

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig ac un Cynrychiolydd Rhieni-lywodraethwyr o'r sector Cynradd ac un Cynrychiolydd Rhieni-lywodraethwyr o'r sector Uwchradd.

| Rhif.    | Teitl    | Llythyren enw cyntaf | Cyfenw    | Ysgol                                                |
|----------|----------|----------------------|-----------|------------------------------------------------------|
| 1        | Cyng Mrs | M                    | Alexander | Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd High Street |
| 2        | Dr       | C                    | Brown     | Ysgol Gynradd Y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru |
| 3        | Mr       | N                    | Craggs    | Ysgol Gynradd Gwenfô yr Eglwys yng Nghymru           |
| 4        | Cyng Mr  | C                    | Elmore    | Ysgol Gynradd Holton                                 |
| 5        | Mrs      | M                    | Gibbs     | Meithrinfa Tregatwg ac Ysgol Llanilltud Fawr         |
| 6        | Mrs      | S                    | Hodges    | Ysgol Sant Baruc ac Ysgol Gwaun y Nant               |
| 7        | Mr       | K                    | Ingram    | Ysgol Ashgrove ac Ysgol Gynradd Albert               |
| 8        | Cyng Mr  | G                    | Kemp      | Ysgol Gyfun y Bont-faen ac Ysgol Gynradd y Rhws      |
| 9        | Mrs      | A                    | Males     | Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres          |
| 10       | Mr       | M                    | Mason     | Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr                        |
| 11       | Dr       | M                    | Price     | Ysgol Gatholig St Richard Gwyn                       |
| 12       | Mr       | P                    | Sampson   | Ysgol Gynradd Tregatwg                               |
| 13       | Mr       | D                    | Treharne  | Ysgol Gwaun y Nant                                   |
| 14       | Cyng Mr  | M                    | Wilson    | Ysgol Gynradd Albert ac Ysgol Gynradd Victoria       |
| 15       |          |                      |           |                                                      |
| CRh-L    | Mr       | P                    | Lewis     | Ysgol Gyfun y Bont-faen                              |
| CRh-L    | Mr       | S                    | Williams  | Ysgol Gynradd y Rhws                                 |
| Arsylwyr | Mrs      | G                    | Evans     | Ysgol Iolo Morganwg                                  |
| Arsylwyr | Mr       | G                    | Scott     | Ysgol Gynradd High Street                            |



# Rap llwyddiannus grŵp ieuenctid y Fro!

Mae grŵp o bobl ifanc o Fro Morgannwg wedi ennill gwobr wych am rap ddwyieithog a luniwyd ganddynt er mwyn hyrwyddo delweddau cadarnhaol o bobl ifanc.

Cyhoeddwyd mai'r rap a'r fideo, o'r enw 'Choices/Dewisiadau', oedd yr enillydd cyffredinol yng Nghymru yng ngwobrau a chystadleuaeth U-News/Clic, a gyhoeddwyd yn 21ain digwyddiad dathlu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y Senedd ym Mae Caerdydd ddiwedd fis Tachwedd.

Cyflwynwyd tystysgrifau i gynrychiolwyr y grŵp, ynghyd â'u gwobr – iPad – gan y Dirprwy Weinidog dros Blant, Huw Lewis.

Bu partneriaid a gwasanaeth ieuenctid Cyngor Bro Morgannwg yn cydweithio'n agos gyda'r grŵp o ddisgyblion o Ysgol Bro Morgannwg yn ystod y gwanwyn er mwyn creu'r rap a'r fideo, gan helpu i amlygu hawliau pobl ifanc yng Nghymru. Y nod oedd hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chodi ymwybyddiaeth o'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

Lansiwyd y rap yn llwyddiannus gan Gomisiynydd Plant Cymru, Keith Towler, fis Gorffennaf diwethaf. Ers hynny, mae wedi cael ei chynnwys ar wefannau lleol a chenedlaethol, mae wedi cael ei gwyllo dros 1,000 gwaith ar YouTube ac mae'n cael ei defnyddio fel adnodd hyfforddi ar gyfer pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar draws Cymru.

Dywedodd Ve Van de Voorde, Swyddog Cyfranogiad Ieuenctid "mae'r bobl ifanc wedi creu adnodd rhagorol ac mae'n wych gweld bod eu gwaith caled wedi cael ei gydnabod. Bu'n llawer o hwyl gweithio gyda nhw a dylent fod yn falch iawn o'u cyflawniadau."

Mae modd i chi weld y rap ar wefan gwasanaeth ieuenctid Bro Morgannwg yma:

[http://www.valeofglamorgan.gov.uk/living/youth\\_service/youth\\_participation.aspx](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/living/youth_service/youth_participation.aspx)

**Ve Van de Voorde**  
Swyddog Cyfranogiad Ieuenctid

## Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) - Sioeau Teithiol Rheolwyr Gwasanaeth

Yn ystod yr hanner tymor hwn, cynhaliwyd tri digwyddiad llwyddiannus ym Mhenarth, Y Barri a'r Bont-faen, a fu'n gyfle i Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr i gyfarfod gyda Rheolwyr Gwasanaeth sy'n cynnig Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor i'w masnachu gydag Ysgolion. Bu'r fforwm hwn yn gyfle i Benaethiaid a Llywodraethwyr ofyn cwestiynau penodol ynghylch y ddogfennaeth CLG a'r gwasanaethau a ddarparir ac yn ei dro, bu'n gyfle gwerthfawr i reolwyr gael adborth. Roedd y digwyddiadau hyn yn rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer y ddogfennaeth CLG newydd, y bydd yn rhaid i bob ysgol sy'n dymuno prynu gwasanaethau ymrwymo iddi erbyn 17 Mawrth 2011 fan bellaf. Gwelwyd oddeutu 65% o'r holl ysgolion yn mynychu, a bu lefel y presenoldeb o Glwstwr Y Barri yn arbennig o dda. Rydym yn ddiolchgar i Ysgolion Cyfun Bryn Hafren a'r Bont-faen am ganiatáu i ni gynnal y digwyddiadau yn eu hysgolion. Gwerthfawrogwyd eu lletygarwch yn fawr.

Gwelwyd nifer o'r rhai a fynychodd yn mynegi dymuniad i'r math hwn o ddigwyddiad gael ei gynnal yn fwy rheolaidd. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth Perfformiad a Chynllunio Strategol yn bwriadu treialu hwn fel digwyddiad blynyddol, er mwyn cynorthwyo'r fframwaith mesur perfformiad CLG a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau CLG. Rhagwelir y bydd y digwyddiadau hyn yn hwyluso cyfathrebu mwy ystyrlon rhwng Rheolwyr Gwasanaeth a'u cwsmeriaid mewn Ysgolion ac y bydd, yn ei dro, yn arwain at welliannau o ran y gwasanaeth a ddarparir lle y'u nodir.

**Lisa Lewis**  
Swyddog Perfformiad a Chynllunio Strategol

### Time to Dine

- ✓ Providing a balanced nutritious meal
- ✓ Reduced fat, salt and sugar
- ✓ Fresh produce cooked on site
- ✓ No mechanically reclaimed or genetically modified food
- ✓ Follow Appetite for life nutritional guidelines
- ✓ All fish used is from sustainable waters - MSC

All this from  
**Vale School  
Catering**



rhicks@valeofglamorgan.gov.uk  
www.valeofglamorgan.gov.uk  
www.myschoollunch.co.uk/glamorgan  
Tel: 02920 673035



**Healthy Harry**



# Menter P.E.S.S. yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar ddysgu ac addysgu yn y Fro

Mae adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o'r fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (P.E.S.S.) ym Mro Morgannwg, wedi adrodd bod y fenter, trwy ddarparu cymorth i ysgolion, yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar ddysgu ac addysgu.

Rhwng mis Mai a mis Hydref 2010, ymwelodd Ymgynghorydd P.E.S.S. ac Arolygydd Estyn, Pru Davis, gyda nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Fro, er mwyn pennu effaith menter P.E.S.S. yn yr awdurdod. Canfu'r adroddiad:

- Bod y cyllid ar gyfer P.E.S.S. yn y Fro yn darparu gwerth da am arian;
- Ei fod yn cael ei reoli'n dda iawn;
- Bod ysgolion yn parchu gwaith cydlynedd P.E.S.S.;
- Bod safonau cyflawniad disgyblion mewn A.G. yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi gwella
- Bod safonau cyflawniad disgyblion yn well yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2 nag yr oeddent yn flaenorol, yn enwedig ym maes gymnasteg a dawns;
- Bod y fenter wedi gwneud cyfraniad amlwg i'r cam o wella sgiliau allweddol a sgiliau ehangach disgyblion, gyda nifer o athrawon bellach yn fwy ymwybodol o botensial A.G. wrth ddatblygu sgiliau allweddol disgyblion megis cyfathrebu, meddwl a defnydd disgyblion o T.G.Ch er mwyn gwella'u dysgu;
- Mae P.E.S.S. yn y Fro wedi cael effaith gadarnhaol ar y pontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ac mae'r perthnasoedd rhwng y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd partner wedi gwella o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi bod yn cymryd rhan mewn partneriaethau P.E.S.S.;
- Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) cynhwysfawr a gynigir trwy gyfrwng y fenter yn y Fro wedi arwain at lefelau hyder gwell wrth addysgu A.G. ymhlith athrawon cynradd;
- Mae sgiliau arwain arweinwyr pwnc A.G. cynradd wedi gwella o ganlyniad i'w cyswllt gyda'r fenter;
- Mae ysgolion a fu'n ymwneud gyda'r fenter yn y Fro wedi llwyddo i godi proffil A.G. yn eu hysgolion, ac mae nifer yn cynnig cyfleoedd gweithgarwch corfforol ehangach a gwell i'w disgyblion erbyn hyn.

Mae llwyddiant menter P.E.S.S. yn y Fro yn tystio i waith caled pawb a fu'n ymwneud gyda'r gwaith, ac ymrwymiad parhaus yr awdurdod tuag at gynorthwyo ysgolion i godi'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion..

**Lesley Dancey**

Cydlynedd A. G. a Chwaraeon Ysgol, Cyngor Bro Morgannwg  
[ldancey@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:ldancey@valeofglamorgan.gov.uk)

## Sgwad Sgwennu Bro Morgannwg

Y tymor diwethaf, dros ddau ddiwrnod, bu oddeutu 60 o blant blwyddyn 5/6 o bob cwr o Fro Morgannwg yn gweithio gydag Yvonne Murphy a Omidaze Education ([www.omidaze.co.uk](http://www.omidaze.co.uk)) er mwyn astudio, ysgrifennu a chynhyrchu perfformiad cryno o ddrama 'Romeo and Juliet' Shakespeare.

Roedd y grŵp yn cynrychioli 30 o ysgolion a oedd wedi dewis plant y mae ganddynt dalent neu ddiddordeb penodol mewn ysgrifennu, i gydweithio, gyda'r nod o annog ac ysgogi creadigrwydd trwy gynnig cyfleoedd i weithio gyda disgyblion Mwy Galluog a Thalentog eraill ochr yn ochr ag awduron, beirdd, perfformwyr a chyfarwyddwyr sefydledig.

Mae'r Sgwad Sgwennu yn cyfarfod bob tymor mewn amrediad o leoliadau er mwyn ysgogi ysgrifennu. Yn ystod pob sesiwn, rhennir arbenigedd a chaiff y sialens ei ddatblygu er mwyn ymestyn sgiliau ysgrifennu y disgyblion. Trefnir y sgwadiau gan Wasanaeth Gwella Ysgolion Bro Morgannwg ac fe'u cynhelir ar y cyd gydag 'Academi', sy'n talu hanner y gost am gynnal digwyddiadau'r sgwad sgwennu. Ceir sgwadiau gweithgar yn y rhan fwyaf o'r 22 awdurdod yng Nghymru.

Mae pob sesiwn y Sgwad Sgwennu yn heriol ac yn bleserus ac ni fu'r sesiwn a gynhaliwyd y tymor diwethaf yn eithriad yn hyn o beth. Dan arweiniad arbenigol Yvonne, bu'r plant yn ymgysylltu gydag amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol gyda'r nod o ddadansoddi iaith Shakespeare er mwyn archwilio a deall un o'i weithiau mwyaf adnabyddus a phoblogaidd.

Profodd Yvonne a'r plant bod Shakespeare yn hygyrch i'r hen ac ifanc ac nad yw wedi'i gyfyngu i weithgarwch astudio ar lefel TGAU a lefel A mwyach. Yn gyflymach nag y gallwch ddweud 'O Romeo, Romeo, wherefore art thou Romeo?', llwyddodd y plant i ddadansoddi'r mesur pumban iambig a'i ddefnyddio i ysgrifennu ac i berfformio'u fersiwn cryno o'r ddrama.

Roedd y plant wedi blino'n lân erbyn diwedd y dydd, ond roeddent yn llawn asbri ac yn frwdfrydig hefyd, ac yn edrych ymlaen at sesiwn nesaf y Sgwad Sgwennu. Yn wir, cysylltodd rhiant un plentyn gydag ysgol eu plentyn a gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion er mwyn diolch iddynt am gynnig y cyfle hwn, gan nodi mai prin oedd yr adegau pan fyddent yn gweld eu plentyn mor gyffrous a byrlymus wrth ganmol profiad dysgu.

Mawr obeithiwn y bydd y sesiwn a gynhelir y tymor nesaf yn parhau i danio brwdfrydedd y plant, gan ymestyn eu sgiliau a'u talent ysgrifennu.

**Rebecca Penn**



# Rhaglen Magu Plant

## Beth yw hwn?

Mae Cysylltiadau Teuluol yn elusen o Rydychen a sefydlwyd ym 1997, gyda'r nod o hyrwyddo lles emosiynol, sgiliau sy'n ymwneud â pherthnasoedd ac ymddygiad cadarnhaol trwy gyfrwng 'Rhaglen Magu Plant'. Mae'r Rhaglen Magu Plant yn gwrs 10 wythnos a gynigir i rieni/gofalwyr, sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau y maent yn meddu arnynt eisoes a chan awgrymu ffyrdd newydd o wella bywyd teuluol a rheoli ymddygiad plant. Mae'n gwneud hyn trwy gynnig dulliau syml, ond effeithiol iawn, o reoli a deall emosiynau ac ymddygiad.

Mae'n helpu teuluoedd o bob cefndir cymdeithasol, beth bynnag fo lefel eu hangen – mae'n rhaglen yr un mor effeithiol i rieni y maent eisoes yn hyderus, ac mae'n cynnig ymyrraeth i'r rhai a fyddai'n cael budd o gael cymorth ychwanegol hefyd.

## Deallusrwydd Emosiynol

Mae gan bawb ddeallusrwydd emosiynol o'u genedigaeth – mae hwn yn allu sy'n rhan o'r ymennydd. Mae datblygiad y gallu hwn yn ddibynnu ar lythrennedd emosiynol unigolyn, ac mae hyn yn dibynnu ar y math o berthnasoedd sydd ganddynt, a hynny gydag oedolion sy'n gofalu amdanynt i ddechrau.

**Y Pedwar Adeiliad** Y Pedwar Adeiliad yw'r 'Blociau Adeiladu' o fewn Rhaglen Magu Plant. Seiliwyd yr holl ddulliau gweithredu, y strategaethau a'r syniadau o fewn Rhaglen Magu Plant ar y pedwar cysyniad allweddol hwn:-



### Hunanyrwybyddiaeth a hunan-barch

Crefft hunanyrwybyddiaeth yw adnabod ein hunain yn dda – yr hyn yr ydym yn ei hoffi a'r hyn nad ydym yn ei hoffi. Mae meithrin ein hunain trwy fodloni ein hanghenion ein hunain yn helpu i roi hwb i'n hunan-barch, gan olygu ei bod yn haws i ni feithrin eraill ac yn arbennig, helpu plant i ddatblygu eu hunanyrwybyddiaeth nhw a hunan-barch iach a chadarnhaol.




### Disgwyliadau priodol

Mae plant yn tyfu mewn gwahanol ffyrdd: corfforol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol. Maent yn dysgu'r miloedd o sgiliau ar wahanol gyfraddau. Gallai'r hyn a fydd yn hawdd i un plentyn fod yn anodd i blentyn arall o'r un oedran.



### Disgyblaeth gadarnhaol

Mae angen disgyblaeth ar bob plentyn er mwyn iddynt ddysgu pa ymddygiad sy'n iawn a pha ymddygiad nad yw'n iawn. Mae disgyblaeth gadarnhaol yn canolbwyntio ar ganmol, gwobrwyo ymdrechion, cynnig dewisiadau, trafod a rhoi cyfrifoldeb. Mae disgyblaeth negyddol ar y llaw arall, yn defnyddio cosb ac ofn; mae'n rhoi straen ar bawb.



### Empathi

Dyma gonglfaen Rhaglen Magu Teulu. Empathi yw'r gallu i synhwyro sut y mae rhywun arall yn teimlo. Nid oes yn rhaid i ni gytuno gyda'r hyn y mae'r person arall yn ei feddwl – dim ond bod yn sensitif i'r ffordd y maent yn teimlo, a'i dderbyn.

## Ble fydd hwn yn cael ei gynnal?


Mae'r 'Rhaglen Magu Teulu' yn fenter newydd a ddarparir mewn rhai o'n hysgolion ar draws Bro Morgannwg. Hyd yn hyn, rydym wedi gweithio gyda rhieni o Ysgolion Cynradd High Street ac Ynys y Barri, ac rydym yn gweithio yn Ysgolion Cynradd Colcot a Holton Road ar hyn o bryd. Erbyn diwedd mis Mawrth, byddwn wedi cael cyswllt gyda bron i 40 o deuluoedd, a mawr obeithiwn gael cyswllt gyda rhagor mewn ysgolion cynradd eraill ar draws y Fro yn y dyfodol.

Yn ogystal, trwy gyfrwng prosiect Cysylltiadau rhwng yr Ysgol a'r Cartref, cynigir y rhaglen i rieni/gofalwyr plant yn Nhregatwg, Jenner Park, Ysgol Gwaun Y Nant ac Oakfield a thrwy gyfrwng Dechrau'n Deg i holl rieni/gofalwyr plant 0-3 oed mewn lleoliadau yn y gymuned – os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach, ffoniwch ni ar 01446 732180

## Meithrin ein Hunain

Bydd pob sesiwn yn cychwyn gyda gwên gynnes a diod sy'n cynnig cysur, ac mae hyn ynddo'i hun yn rhywbeth na fydd yn digwydd yn aml i nifer o bobl ac mae'n ymddangos bod rhieni yn mwynhau rhan hunan-feithrin y rhaglen a gaiff ei hyrwyddo dros y deg wythnos.

Erbyn diwedd y cwrs, rydym yn gweld bod rhieni yn gwir werthfawrogi'r amser y maent yn ei dreulio gyda'i gilydd ac maent yn teimlo'u bod yn cael cymorth gan eu cymheiriaid. Caiff rhieni dawelwch meddwl trwy fynychu'r grŵp a gweld bod nifer ohonynt yn rhannu problemau tebyg; mae rhai yn nodi eu bod wedi teimlo'n 'unig' iawn yn flaenorol wrth iddynt gyflawni eu rôl rhianta.



Soniodd nifer am y cysylltiadau cryf a ddatblygwyd rhyngddynt yn ystod y cwrs, a arweiniodd at y cam o drefnu cyfarfodydd parhaus a rheolaidd rhyngddynt.

Mae'n ymddangos bod llawer o gynnwys y rhaglen yn fewnol ac yn cael ei ddarparu yn y cartref rhwng sesiynau. Atgyfnerthwyd y cynnwys ymhellach gan allu'r rhieni i gyfeirio at y llawlyfr cysylltiedig 'The Parenting Puzzle' (Hunt 2003). Bydd pob rhiant yn cael copi o'r llyfr hwn.

## Mae rhieni wedi ymateb mewn ffordd gadarnhaol iawn i'r Rhaglen.

Adroddwyd am y canlynol ganddynt:

- profiad sy'n calonogi mewn awyrgylch cefnogol
- dealltwriaeth well o berthnasoedd teuluol a rhianta
- mwy o hyder a chyfathrebu gwell gyda'u plant
- agweddau mwy cadarnhaol tuag at eu plant a'u teuluoedd
- ymddygiad cadarnhaol yn ategu technegau megis Dewisiadau a Chanlyniadau fu'r peth mwyaf llwyddiannus

Nododd nifer o rieni mai eu prif gymhelliant dros fynychu Rhaglen Magu Teulu oedd er mwyn adennill ymdeimlad o reolaeth yn eu rôl rhianta, gan ddarganfod ffordd well o reoli ymddygiad eu plant. Trwy feddwl mewn ffordd fwy pwylllog a manteisio ar ddulliau rhianta newydd, gwelwyd tystiolaeth sylweddol bod hyn wedi cael ei gyflawni. Gwelwyd mwyafrif y rhieni a wnaeth gwblhau'r cwrs cyfan, neu'r rhan fwyaf ohono, yn cael profiad pwerus o ddatblygiad llythrennedd emosiynol. Er enghraifft, nodi a rheoli emosiynau, hunan-gymhelliant ac empathi, a rheoli perthnasoedd hefyd.

## Detholiad o'r sylwadau a wnaethpwyd gan rieni:-

*"Roeddwn yn mwynhau ymlacio gymaint ac roedd dysgu am empathi yn ddefnyddiol."*

*"Mae mynd i'r afael gyda fy mhroblemau yn amlwg o eistedd a gwrando, bydd hyn yn dda i mi."*

*"Roeddwn yn hoffi dysgu am y ffordd gywir o roi canmoliaeth."*

*"Mae'n braf clywed am rieni eraill yn yr un sefyllfa."*

*"Dylai fod ar gael i bawb – mae'r teulu cyfan yn elwa nawr."*

*"Mae Dewisiadau a Chanlyniadau yn wych, maent wedi bod o gymorth mawr yn y boreau!"*

*"Rydw i'n fwy ymwybodol o deimladau fy mhiant a'u rhesymau dros fihafio'n ddrwg weithiau!"*

## Sylwadau penaethiaid:-

*"Mae'n teuluoedd wedi gwerthfawrogi'r sesiynau, maent wedi'u grymuso a chawsant eu cymell i barhau gyda'r rhaglen magu plant yn annibynnol. Mae rhai rhieni yn cynnal boreau coffi a sesiynau cymorth bob wythnos o ganlyniad uniongyrchol i'w hyfforddiant." Diolch!*

**Janet Hayward**

Pennaeth, Ysgol Gynradd Ynys y Barri

**Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Sarah Richards  
neu Tracy Middleton ar 01446 709483**



# Cynhadledd Flynyddol i Lywodraethwyr 2011 - Consortiwm Canol De Cymru

2011 yw'r flwyddyn gyntaf y mae'r Fro wedi ymuno â'i phartneriaid yng Nghonsortiwm Canol De Cymru sef Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr a Rhondda Cynon Taf er mwyn trefnu Cynhadledd Flynyddol i Lywodraethwyr. Cefnogwyd y Gynhadledd gan Lywodraethwyr Cymru hefyd. Cynhaliwyd y digwyddiad ar ddydd Sadwrn 5 Mawrth 2011 yn ESIS, Tŷ Dysgu, Nantgarw, Trefforest.

Ffocws y Gynhadledd oedd 'Gweithio mewn Partneriaeth', gyda'r nod o rannu gwybodaeth gyda llywodraethwyr ysgol ynghylch enghreifftiau llwyddiannus o gydweithio ar lefel ysgol ac ar lefel Awdurdod Lleol, ac roedd hi'n braf gweld cymaint o lywodraethwyr wedi dod ynghyd o'r pum awdurdod.

Ar ôl cyrraedd, darparwyd coffi cynnar i'r llywodraethwyr, ynghyd â gair o groeso ac annerchiad agoriadol gan Carol Sayce, Cadeirydd Llywodraethwyr Cymru, a wnaeth amlinellu'r rhaglen ar gyfer y diwrnod.

Cafwyd prif gyflwyniad gan Hilary Anthony, Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ynghylch 'Gwella Gwasanaethau i Bobl Ifanc trwy gydweithio'. Rhoddwyd derbyniad da i gyflwyniad Hilary, a wnaeth brocio'r meddwl a chanolbwyntio ar y tirlun sy'n newid o fewn awdurdodau lleol, a'r angen i gydweithio er mwyn gwella a datblygu gwasanaethau.

Yn dilyn cyflwyniad Hilary, symudodd y llywodraethwyr ymlaen i'r Gweithdy bore a ddewiswyd ganddynt, a oedd yn cynnwys:

- Ffederaleiddio a Chydweithio
- Rôl Llywodraethwyr Ysgolion ym maes Cyfranogiad Disgyblion
- Pontio 8-14 (Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3)
- Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy/Dinasyddiaeth Fyd-eang

Bu hyn yn gyfle i rwydweithio gyda llywodraethwyr eraill ar draws y pum awdurdod er mwyn cyfnewid gwybodaeth a phrofiad am lywodraethu effeithiol mewn ysgolion.

Ar ôl egwyl am ginio, lle y bu modd i'r llywodraethwyr gymysgu a rhannu eu profiadau o'r bore, cyrhaeddodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Leighton Andrews, AC, gan roi prif gyflwyniad ynghylch 'Gwella Ysgolion'. Yn ei gyflwyniad, amlygodd y Gweinidog gyfrifoldeb a rôl hanfodol cyrff llywodraethu ysgolion wrth godi safonau a pherfformiad ar draws yr ysgol, ac yn enwedig ym maes llythrennedd a rhifedd. Atebodd y Gweinidog ddigon o gwestiynau a ofynnwyd gan yr holl lywodraethwyr, gan gynnwys llywodraethwyr y Fro, a chroesawyd y ffaith bod y Gweinidog wedi aros yn hirach na'r disgwyl er mwyn ymateb yn llawn i'r holl gwestiynau a ofynnwyd iddo.

Yn ystod y prynhawn, mynychodd y llywodraethwyr yr ail Weithdy a ddewiswyd ganddynt. Ar ddiwedd y Gynhadledd, cynhaliwyd sesiwn lawn, lle y bu modd i'r llywodraethwyr ofyn cwestiynau i'r rhai a fu'n rhoi'r cyflwyniadau a'r gweithdai yn ystod y diwrnod.

Teimlwyd y bu'r digwyddiad yn llwyddiant; cafwyd cyflwyniadau a gweithdai diddorol gan y siaradwyr, a oedd yn ymwneud â materion allweddol ac a wnaeth helpu i sicrhau bod y diwrnod yn ddigwyddiad blynyddol allweddol yng nghalendr llywodraethwyr y Fro. Mawr obeithiwn bod y llywodraethwyr yn teimlo bod y digwyddiad wedi bod yn un gwerth chweil a phleserus.

Hoffai GSU ddiolch i'r holl lywodraethwyr hynny a wnaeth neilltuo eu dydd Sadwrn er mwyn mynychu'r Gynhadledd, ac rydym yn ddiolchgar iddynt unwaith eto am eu cymorth parhaus.





*Uchod: (o'r brig i'r gwaelod)*  
**Leighton Andrews AM**  
Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oesg  
**Hilary Anthony**  
Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr

*Chwith: (o'r brig i'r gwaelod)*  
**Hilary Anthony**  
Cyfarwyddwr Addysg,  
Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr  
**Carol Sayce**  
Cadeirydd Llywodraethwyr Cymru  
**Mike Southcoat**  
Gweithdy Pontio 8-14  
(Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3)  
**Jane Harries**  
Gweithdy Rôl Llywodraethwyr Ysgolion  
ym maes Cyfranogiad Disgyblion



# Iaith a Chwarae – Cysylltiadau gyda Llyfryn y Cyfnod Sylfaen

Mae Rhaglen Iaith a Chwarae (IaCh) yn fenter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gynlluniwyd i gynorthwyo rhieni a gofalmwyr plant 0-3 oed wrth iddynt ddatblygu eu hiaith, eu llythrennedd a'u gweithgarwch chwarae cynnar.

Nod y rhaglen yw helpu rhieni i ystyried y ffyrdd niferus o chwarae gyda'u plant, gwrando arnynt a siarad gyda nhw, canu caneuon a rhigymau a chyflwyno cariad at lyfrau iddynt.

Mae rhaglen Iaith a Chwarae yn rhan o Wasanaeth Gwella Ysgolion y Fro ac fe'i cynhelir mewn nifer o ysgolion, meithrinfeydd, grwpiau chwarae a grwpiau cymunedol eraill ar draws Bro Morgannwg.

Caiff Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar, rhieni sy'n gwirfoddoli a gweithwyr cymunedol eu hyfforddi i gyflwyno'r gweithdai. Er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i gyflwyno'r rhaglen ac ar gyfer y rhieni/gofalmwyr sy'n mynychu'r sesiynau, mae'r Tîm Iaith a Chwarae wedi creu canllaw cynhwysfawr, arloesol, deniadol a llawn gwybodaeth am y rhaglen a'r ffordd y mae'n cysylltu gyda'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r llyfryn yn canolbwyntio ar rannu negeseuon pwysig ynghylch sut y mae plant yn dysgu trwy chwarae a sut y gall rhieni a gofalmwyr gynorthwyo'u plant yn y cartref. Yn ogystal, mae'n cynnwys ystod o weithgareddau ymarferol y mae modd eu mwynhau gyda'ch gilydd. Yn dilyn y gweithgareddau, ceir cysylltiadau i'r Cyfnod Sylfaen, gan amlinellu rhai o'r sgiliau y bydd plant yn dechrau eu datblygu cyn iddynt ddechrau mynychu'r ysgol feithrin.

Mae ymarferwyr a rhieni/gofalmwyr wedi rhoi cryn groeso i'r llyfryn ers iddo gael ei gynhyrchu yn ddiweddar. Dywedodd Pauline Rowland, Pennaeth Ysgol Feithrin Cogan:

"Mae cynllun y llyfryn yn dda iawn. Mae'n cynnwys cyngor defnyddiol ac enghreifftiau o sut i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar mewn ffordd llawn hwyl ac ysgogol, ond heb fawr ddim o gost neu ychydig iawn o gost. Mae'n adnodd gwych i rieni/gofalmwyr ac ymarferwyr.

Sylwadau gan rieni a gofalmwyr –


*"Roeddwn wrth fy modd gyda'r llyfryn; bu o gymorth mawr i mi wrth ddeall y Cyfnod Sylfaen a'r hyn y maent yn ei wneud yn yr ysgol."*

*"Nid oeddwn fyth wedi ystyried faint y gallai Thomas ei ddysgu trwy wneud gweithgareddau mor syml."*

*"Roeddwn yn dwli ar y llyfryn IACH/CS; mae'n gwneud cymaint o synnwyr ac mae'n hawdd i'w ddilyn."*

*"Roedd y lluniau a'r cysylltiadau yn ddefnyddiol iawn ac yn hawdd i'w dilyn."*

*"Rydw i'n hoffi helpu fy merch gartref ac mae'r llyfryn wedi rhoi nifer o syniadau a gweithgareddau i mi roi cynnig arnynt."*



Debbie Collins, Sarah Richards and Tracy Middleton

Tim Iaith a Chwarae  
Bro Morgannwg



# Cymunedau Dysgu Proffesiynol (CDPau) Y Fro

Mae Cymunedau Dysgu Proffesiynol (CDPau) yn ffordd o sicrhau cyflawniad uwch a chyrhaeddiad gwell mewn ysgolion ar draws Cymru wrth i athrawon gydweithio o fewn ysgolion, rhwng ysgolion ac ar draws ysgolion. Maent yn cynnig ffordd effeithiol o strwythuro Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) er mwyn sicrhau bod modd bodloni anghenion dysgu proffesiynol unigol yr holl gyfranogwyr. Caiff CDPau eu seilio ar grŵp o ymarferwyr yn cydweithio, gan fyfyrwyr am eu harfer, arbrofi gyda syniadau, ymchwilio i strategaethau newydd a dysgu amdanynt eu hunain, oll er mwyn gwella canlyniadau dysgwyr.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda phenaethiaid, cytunwyd y bydd Bro Morgannwg yn datblygu 6 CDP a fydd yn cael eu hariannu trwy gyfrwng grant y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY). Mae'r elfennau y rhoddir ffocws iddynt yn ystod y DPP hwn a ysgogwyd gan ymholiad, fel a ganlyn:

- Sut mae modd i ni herio disgyblion mwy galluog a thalentog mewn ffordd fwy effeithiol?
- Sut mae modd i ni sicrhau lles disgyblion mwy galluog a thalentog?
- Sut mae modd datblygu profiad y Cyfnod Sylfaen mewn ffordd effeithiol er mwyn codi safonau darllen yn ystod y cyfnod pontio rhwng B2 a B3?
- Sut mae modd mesur effaith dysgu arbrofol ar safonau cyflawniad, yn enwedig i fechgyn?
- Sut mae modd defnyddio TGCh er mwyn creu cyswllt rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg er mwyn datblygu'r iaith Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Saesneg fel iaith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg?
- Sut mae modd mesur effaith strategaethau dysgu ac addysgu amrywiol ar les yn yr ystafell ddosbarth uwchradd?

Currently there are 50 schools in this innovative and exciting programme. The evaluations and outcomes of these PLCs will be disseminated at a Central South Consortium Showcase event, over 2 days in the middle of March and will be shared on the Vale of Glamorgan Learning Portal.

**John Comissiong**

Cynghorydd Datblygu, Gwasanaeth Gwella Ysgolion Bro Morgannwg

Ffôn: 01446 709877

[JComissiong@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JComissiong@valeofglamorgan.gov.uk)

## 'Sgwad Sgwennu' Cynradd Cynta'r Fro

Fis Ionawr 2011, gwelwyd sefydlu 'Sgwad' 'Sgwennu Mamiaith cyntaf y Fro. Enwebwyd dau ddisgybl o flynyddoedd 5 a 6 y pum Ysgol gynradd: Sant Baruc, Sant Curig, Gwaun y Nant, Pen y Garth a Iolo Morganwg i fod yn aelodau o'r Sgwad cyntaf. Swynwyd y plant gan eiriau y bardd, awdur a'r gantores Gwyneth Glyn ym mhrif Lyfrgell tref y Barri. Roedd Gwyneth wrth ei bodd gyda cyfraniadau'r disgyblion wrth iddynt ysgrifennu cerddi doniol a sgriptio deialogau wedi eu sbarduno gan luniau go arbennig!

'Roedd yn bleser darllen gwaith y 'Sgwad', a'u gweld yn ymateb mor bositif i gynnwys y diwrnod', meddai Ceryl Rowe – Athrawes Fro Mamiaith a chyd lynydd y 'Sgwad yn y Fro.

Dyma ddechrau'r daith – edrychwn ymlaen at weld cynnyrch y sesiwn nesaf. A gyda dyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol i'r Fro yn 2012 pwy a wyr efallai ein bod ni yn meithrin beirdd y dyfodol?

**Am fwy o fanylion cysylltwch â**  
**Menna Roberts (Ymgynghorydd y Gymraeg)**  
**01446 709556 neu drwy e-bost**  
**[mjroberts@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:mjroberts@valeofglamorgan.gov.uk)**



## Mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg,  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Provincial House, Kendrick Road, Y Barry CF62 8BF

### Manylion cyswllt:

#### John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: [JSparks@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JSparks@valeofglamorgan.gov.uk)

#### Jeremy Morgan

Swyddog Uwch Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709108 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: [JerMorgan@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JerMorgan@valeofglamorgan.gov.uk)



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn â ni, sef  
**[VSGA@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:VSGA@valeofglamorgan.gov.uk)**  
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

#### VSGA

Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Provincial House  
Kendrick Road, Barry CF62 4BF